

**Gwobr Ansawdd Genedlaethol
Rhwydwaith Cynlluniau Ysgolion Iach Cymru**



**Welsh Network of Healthy School Schemes
National Quality Award**

**Adroddiad Gwobr Ansawdd Genedlaethol
ar yr ymweliad â
Ysgol Carreg Emlyn**

Dyddiad:

Rhagfyr 5ed a'r 6ed, 2017

Cyflwyniad

Llongyfarchiadau ar eich llwyddiant i dderbyn y Wobr Ansawdd Genedlaethol Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru. Yr ydym yn falch iawn i gadarnhau bod Ysgol Carreg Emlyn yn cyfarfod â'r holl feini prawf ar gyfer y Wobr Ansawdd Genedlaethol. Mae'r meini prawf hyn wedi eu gosod allan yn erbyn 7 testun iechyd.

Mae ysgolion sydd yn llwyddo i dderbyn y Wobr Ansawdd Genedlaethol yn gweithredu mentrau sydd yn ymwneud â lles i'r safon uchaf. Yn yr adroddiad hwn yr ydym yn nodi cryfderau nodedig eich ysgol wrth i chi fynd ati i hyrwyddo lles pawb sydd yn ymwneud â'r ysgol. Mae'r adroddiad hefyd yn adnabod meysydd sydd angen ystyriaeth arnoch er mwyn datblygu ymhellach. Gobeithiwn fod yr adroddiad yn rhoi hwb i chi ac yn cynnig arweiniad defnyddiol fydd yn galluogi disgyblion a staff Carreg Emlyn i barhau ac i ddatblygu rhai o'r mentrau rhagorol mae'r ysgol eisoes yn ei gweithredu fel eu bod hyd yn oed yn cael eu sefydlu ymhellach ym mywyd yr ysgol.

1. Bwyd a ffitrwydd (maeth a gweithgareddau corfforol)
2. Iechyd a lles Meddyliol ac Emosiynol gan gynnwys lles y staff
3. Datblygu personol a chydbertynas gan gynnwys addysg rhyw a pherthnasoedd
4. Defnyddio a chamddefnyddio sylweddau, gan gynnwys alcohol, ysmegu a chyffuriau (cyfreithiol, anghyfreithiol a phresgripsiwn)
5. Amgylchedd gan gynnwys eco-fentrau a gwelliannau i'r ysgol a'r amgylchedd ehangach
6. Diogelwch gan gynnwys agweddau amrywiol fel amddiffyn disgyblion, diogelwch yr haul, diogelwch y rhyngwrwd a chymorth cyntaf

Hylendid gan gynnwys ar draws yr ysgol a thu hwnt

Am ragor o wybodaeth ar feini prawf GAG, ymwelwch â

<http://gov.wales/topics/health/improvement/schools/?skip=1&lang=cy>

Mae'r meini prawf yn cael eu cefnogi gan nifer o egwyddorion sylfaenol sef;

- Pwysigrwydd cyfranogiad y disgyblion yng nghraidd bywyd ysgol sydd yn effeithio ar les disgyblion a phobl ifanc e.e. dysgu ac addysgu, amgylchedd, gofal bugeiliol
- Pwysigrwydd yr ymrwymiad a'r ddealltwriaeth sydd gan holl gymuned yr ysgol
- Bod agweddau iach tuag at iechyd yn bodoli
- Cyfiawnder Ecwiti
- Y cyswllt â rhaglenni a pholisïau cenedlaethol a lleol

Eurwen Hulmston

Crynodeb yr ymweliad

Mae holl staff yr ysgol yn ymwybodol o'r un neges, sef sicrhau bod pob disgybl yn cael addysg gytbwys a pherthnasol gydag iechyd a lles y disgyblion yn uchel iawn yn eu penderfyniadau a'u cynllunio. Mae'r ysgol, o dan amgylchiadau hynod o anodd, yn cyflwyno addysg arbennig i'r disgyblion gydag ystod o brofiadau diddorol ac addysgiadol, gyda' rhan fwyaf yn ymateb i ofynion y cynllun yma. Mae trefniadaeth yr ysgol yn hynod o lwyddiannus gan gofio bod yr ysgol ar ddau safle sydd dros bedair milltir ar wahân, gyda'r naill adeilad yn addas iawn i addysg o fewn yr unfed ganrif ar hugain. Er hyn, mae'r staff i gyd yn gweithio fel tîm agos iawn er budd yr holl ddisgyblion. Mae'r pennaeth yn arwain gyda gweledigaeth gref gyda chefnogaeth frwd gweddill y staff, y rhieni, y bwrdd llywodraethol a chymuned fyw eang yr ysgol. Mae'r ddau gydlynedd, un ar bob safle wedi cydweithio'n agos iawn i sicrhau bod y cynllun yn un ysgol gyfan a'i gwaith caled, trylwyr yn cael ei amlygu yn y taflenni dangosyddion ac yn dystiolaeth a gyflwynwyd i ni yn ystod yr ymweliad.

Mae cyfathrebu o fewn yr ysgol yn hynod o dda, gyda safwe arbennig o ddiddorol a chynhwysfawr sy'n hollol gyfoes. Defnyddir Trydar hefyd i rannu negeseuon brys, clod arbennig ac unrhyw newyddion. Bob bore Llun bydd Newyddlen Ysgol newydd, llawn gwybodaeth, yn cael ei chyflwyno ar y wefan, gydag un neu ddau o deuluoedd yn cael copi caled. Braff oedd gweld, wrth ddarllen y rhain, dros y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf, cymaint o sylw oedd yn cael ei roi i agweddau o'r cynllun yma. Trefnir nosweithiau rheolaidd i rannu gwybodaeth gyda rhieni e.e. diogelwch y we, addysg rhyw ayb. Da oedd gweld, mewn noson o wybodaeth gyffredinol i rieni'r Cyfnod Sylfaen bod gwaith yr Ysgol lach yn cael ei chyflwyno iddynt.

Da hefyd, oedd gweld bod gwaith yr Ysgol lach wedi ei seilio'n gryf ar draws cwricwlwm yr ysgol, a gwaith cwricwlwm da'r disgyblion yw gweld ym mhob un o agweddau'r cynllun. Mae'r cwricwlwm wedi ei gynllunio'n ofalus ar draws ystod oed yr ysgol i sicrhau nad yw gwaith yr Ysgol lach yn rhywbeth ynysig o fewn y cwricwlwm ond yn rhan annatod o bopeth sy'n cael ei gyflwyno i'r disgyblion.

Mae'r ysgol yn le hynod o hapus gydag awyrgylch hyfryd a disgyblion caredig, hyderus a cwrtais iawn. Er bod safleoedd yr ysgol yn fach iawn i'r nifer o ddisgyblion mae'r staff wedi gwneud y gorau ohonynt ac yn parhau i wella'r cyfleusterau i'r disgyblion er bod sôn am ysgol newydd, fyddai yn cyfuno'r ddau safle yn y dyfodol. Mae mannau distaw, mannau chwarae, gerddi, "poly tunnel" ac ardal goediog yn llawn o fannau i hybu dychymyg y disgyblion ynghyd a dosbarth awyr agored. Mae adeiladau'r yr ysgol ar y ddau safle, yn hynod o gyfyng, ond yn enwedig ar safle Clocaenog. Er hynny mae'r ysgol yn daclus a lliwgar ac yn llawn o waith y disgyblion, darluniau o weithgareddau ayb. O sgwrsio gyda'r disgyblion, roedd eu balchder o fod yn rhan o'r ysgol yn amlygu ei hun yn gyson a'r disgyblion yn ymfalchio, dros ystod oed yr ysgol, eu bod yn derbyn profiadau mor amrywiol a diddorol i gyfoethogi'r cwricwlwm o fewn y gymuned leol a thrwy deithiau addysgol i ardaloedd eraill. Buaswn yn crynhoi'r cwbl trwy ddweud eich bod fel ysgol, yn mynd y filltir ychwanegol ym mhob agwedd o'ch gwaith. Diolch yn fawr iawn am yr holl waith caled ac am y croeso cynnes.

Uchafbwyntiau'r ymweliad

Bwyd a Ffitrwydd

Mae gan yr ysgol bolisi cadarn sy'n dilyn canllawiau lleol a chenedlaethol ac mae'n amlwg o'r holl arfer da gwelsom, bod y polisi yn weithredol.

Bwyd

- Mae Heather a Jill, y cogyddesau, yn darparu brecwast a chinio blasus ac iach, sy'n cydymffurfio a'r rheolau statudol ac mae canran uchel yn dewis cinio ysgol. Mae Heather yn haeddu clod arbennig am ddarparu cinio yn ddiffwdan o dan amgylchiadau anodd iawn.
- Mae'r cwricwlwm yn cynnwys cyfleoedd i ddysgu am fwyd iach a deiet cytbwys trwy'r themâu traws cwricwlaidd e.e. bwyd yn yr ail ryfel byd, bwyd yn oes y Tuduriaid, bwydydd traddodiadol India a Sbaen.
- Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda'r gymuned leol, y tîm Ysgolion Iach a busnesau/ elusennau addas i gyfoethogi sgiliau'r disgyblion trwy gynlluniau megis: Gŵyl Eirin Dinbych, gwyliau bwyd, Farm to Fork, Welsh Dairy Show a.y.b.
- Mae canran uchel o'r disgyblion yn cymryd rhan yn Cogurdd ac maen nhw'n cael cyfleoedd ym mhob dosbarth i baratoi a choginio bwydydd iach e.e. iogwrt mango, lolis ffrwythau iach
- Mae cyfraniad y disgyblion yn amlwg gyda'r cyngor eco yn monitro bocsys bwyd i annog bwyta'n iach
- Mae'r ysgol yn darparu siop ffrwythau ar y 2 safle
- Yn ôl y rhieni mae gwaith yr ysgol yn ei gwneud yn treiddio'n ddwfn achos mae disgyblion yn atgoffa'u rhieni o'r canllawiau!

Ffitrwydd

- Mae staff wedi derbyn hyfforddiant mewn ystod eang o chwaraeon e.e. rygbi, gymnasteg, nofio, tenis, criced, a hoci a hefyd gemau cae chwarae a garddio.
- Mae parch at gydraddoldeb yn amlwg gyda'r merched yn chwarae pêl-droed a rygbi a'r bechgyn yn mwynhau sgipio a hwla hwps a'r bechgyn a'r merched yn cyd-chwarae yn ddiffwdan amser chwarae
- Mae pawb yn actif yn ystod amser chwarae gyda digon o offer i gynnig rhywbeth i bawb. Mae ffrindiau buarth yn helpu sicrhau bod pawb yn hapus ac mae'n amlwg o'r ffurflenni cais bod statws uchel yn cael ei roi i'r cynllun.
- Mae cyfraniad y disgyblion yn amlwg gyda'r cyngor ysgol yn codi arian i brynu offer buarth a threfnu prynhawn chwaraeon a'r llysgenhadon chwaraeon yn trefnu gemau amser cinio.
- Mae ymweliadau i Langrannog, Pentrellyncymer a Glanllyn yn rhoi cyfleoedd i'r disgyblion brofi gweithgareddau anturus.
- Mae ymrwymiad yr ysgol yn gosod sylfeini cadarn, sy'n gadael effaith tymor hir- roedd y rhieni yn hynod o falch fod 3 allan o 5 aelod o'r tîm traws gwlad Brynhyfryd yn gyn disgyblion Carreg Emlyn.

Iechyd a Lles Emosiynol

- Ymddygiad a chwarteisi arbennig o dda'r disgyblion.
- Defnyddio'r cynllun SEAL fel adnodd ABCCh – gwaith disgyblion manwl iawn wedi ei gyflwyno yn dilyn cyflwyniadau SEAL.
- Strategaeth annog ymddygiad positif gyda mewnbwn gan y disgyblion ar y dulliau o glodfori. Disgyblion yn hoffi'r dulliau a ddefnyddir yn fawr.
- Newydd ddechrau defnyddio PASS (Pupil Attitude to School and Self).
- Clybiau allgyrsiol diddorol - Garddio, gemau bwrdd, crefft, chwaraeon, clwb yr Urdd, Pêl droed ayb.
- Cymryd rhan yn gyhoeddus yn rheolaidd a chyswllt cymunedol arbennig o gryf.
- Criw Clên ar y ddau safle a chynllun Ffrindiau Mawr a Ffrindiau Bach.
- Cyfranogiad disgyblion yn derbyn sylw dyladwy iawn.
- Aelodau o'r gymuned a rhieni yn cefnogi gwaith cwricwlaidd.
- Llawer o'r gwaith yn ystod yr Wythnos Gwrth Fwlio yn cael ei arwain gan y disgyblion.

Datblygu Personol a Pherthnasedd

- Mae'r polisi addysg rhyw a pherthnasoedd yn rhagorol. Mae'n cynnwys nodiadau clir am eithrio disgyblion, yr eirfa bydd yr ysgol yn ei ddefnyddio a ffiniau cyfrinachedd. Rhoddir sylw teilwng i gydraddoldeb a pherthnasoedd hoyw
- Cyfeirir at drefniadau addysg rhyw yn y llawlyfr a rhoddir gwybodaeth am weld y polisi. Hefyd mae'r ysgol wedi trefnu noson rhieni i sicrhau bod pawb yn gwybod beth sy'n cael ei ddysgu
- Derbyniodd y staff cyfan hyfforddiant gan gydlynnydd Ysgolion Iach Dinbych ac maent yn dilyn y rhaglen a defnyddio'r adnoddau argymhellir.
- Mae'r rhaglen yn drwyadl ac addas i oedran y disgyblion yn y 2 cyfnod allweddol. Mae disgyblion yn Bl.5 a 6 yn dysgu am y glasoed, cenhedlu a genedigaeth ac yn y Cyfnod Sylfaen maen nhw'n dysgu enwau am rannau'r corff a'r gwahaniaeth rhwng cyffyrddiad priodol ac amhriodol. Mae disgyblion Bl.5-6 yn defnyddio grid GED i gofnodi beth maent yn gwybod yn barod a beth maen nhw eisiau ddysgu.
- Mae gwersi SEAL yn cyfoethogi'r rhaglen addysg rhyw a pherthnasoedd trwy hybu dealltwriaeth y disgyblion o berthnasoedd iach, rhinweddau pwysig ffrindiau a.y.b.
- Mae'r ysgol yn manteisio ar y cyfle i weithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau arbenigol megis: Childline, swyddog Cyswllt yr Heddlu, NSPCC, y nyrs ysgol a Sbectrwm , i hybu sgiliau'r disgyblion i gadw'n ddiogel a sicrhau eu bod yn gwybod sut i gael cymorth.
- Mae bwydo o'r fron yn cael sylw teilwng yn y 2 cyfnod allweddol a nododd un o'r llywodraethwyr ei bod wedi bwydo ei babi mewn cyfarfodydd yn ddiffwdan.

Defnyddio a Chamddefnyddio Sylweddau

- Aelod o'r staff wedi derbyn hyfforddiant cyfoes.
- Disgyblion yn ymweld gyda Pentre Peryglon dwywaith yn ystod eu hamser yn yr ysgol.
- Paid Cyffwrdd, Dwed wedi ymweld yn ystod 2017.
- Disgyblion wedi gwneud gwaith ymchwil i mewn i ysmegu gyda'u rheini fel rhan o waith gwyddoniaeth.
- Gwaith da ar bwysau cyfoedion.
- Disgyblion wedi bod yn creu posteri da ar atal ysmegu ar Ddiwrnod Dim Ysmegu.
- Rheoli gweinyddu meddyginiaethau'r ysgol yn y llawlyfr ac ar y wefan.
- Yr ysgol yn gwneud gwaith estynedig yn dilyn ymweliadau arbenigwyr e.e. Swyddog

Cyswllt yr Heddlu.

Yr Amgylchedd

- Gwobr Ysgol Masnach Deg - Dathlu pythefnos Masnach Deg
- Gwobr Royal Horticultural Society, lefel 2
- Wedi derbyn tair baner werdd i'r Cynllun Ysgol Eco. Gweithio tuag Gwobr Platinwm Ysgolion Eco.
- Eco Gòd ac adolygiad amgylcheddol
- Bag2School
- Llawer o hyfforddiant staff.
- Ymweliadau amgylcheddol yn gyson.
- Clwb garddio poblogaidd iawn yn y tymor tyfu.
- Disgyblion yn compostio yn gyson.
- Ail gylchu rheolaidd.
- Diwrnod Gwyrdd 2016 gydag arbenigwyr yn cyflwyno gwahanol agweddau i'r disgyblion.
- Yn dilyn ymweliad y Grŵp Eco i gynhadledd Masnach Deg, penderfynwyd bod y disgyblion yn mynd i brynu dillad addysg gorfforol oedd yn ymateb i ofnion y cynllun Masnach Deg.
- Newyddlen electronig a Thrydar.

Diogelwch

- Wythnos Diogelwch ym mis Chwefror 2107 oedd yn cynnwys hyfforddiant Heartstart i'r disgyblion i gyd o'r Cyfnod Sylfaen i Bl.6, diogelwch gyda cŵn, diogelwch ar y fferm, NSPCC a.y.b.
- Pob aelod o staff wedi hyfforddi gyda chymorth cyntaf - staff ategol Ebrill 2016, athrawon - Ebrill 2017. HMS da i'r staff i gyd.
- Aelodau o'r cyngor ysgol a'r cyngor eco wedi mynd i safle'r Cyfnod Sylfaen i roi cyflwyniad ar ddiogelwch yn yr haul a diogelwch mewn ceir y mis Gorffennaf 2017.
- Bikeability - Ionawr 2016; Gorffennaf 2017
- Rhannu gwybodaeth diogelwch we yn rheolaidd gyda'r rhieni.
- Disgyblion yn chwarae rôl bwysig mewn agweddau diogelwch yn ddyddiol – Criw Clên, yr E-dîm a.y.b.
- Noson diogelwch y we i rieni – haf 2017

Hylendid

- Mae'r ysgol wedi cael sgôr o 5 am hylendid bwyd ac mae safonau gosodedig i gyd wedi eu cyrraedd.
- Mae 6 o staff wedi derbyn cymhwyster lefel 2 hylendid bwyd.
- Mae'r gwaith i hybu golchi dwylo ar y 2 safle yn rhagorol: gwelwyd y disgyblion yn golchi eu dwylo'n drwyadl heb i neb i'w hatgoffa. Mae pawb yn gwybod pryd mae rhaid golchi dwylo ac mae'r gân ganodd disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn ffordd effeithiol iawn o ddysgu sut i olchi dwylo'n drwyadl.
- Mae'r ysgol yn defnyddio ystod eang o adnoddau yn cynnwys: gweithdai Asiantaeth Safonau Bwyd a gwaith dilynol, adnoddau Ebug, y peiriant Glo bug a chyfres o lyfrau storiâu.
- Mae'r disgyblion yn helpu cadw safonau trwy wneud posteri golchi dwylo'n flynyddol sy'n cael eu harddangos yn y toiledau ac o gwmpas yr ysgol, paratoi'r byrddau i amser cinio, atgoffa pawb i olchi dwylo cyn bwyta a monitro tymheredd yr oergell.
- Mae canllawiau priodol am ddychwelyd ar ôl salwch ar y wefan ac yn y llawlyfr.
- Mae'r ysgol yn cydweithio'n dda gyda'r nyrs ysgol i sicrhau arfer da. Maent yn cymryd

rhan yn y rhaglen imiwneiddio ac mae'r nyrs a'r tîm ysgolion iach wedi cefnogi rhaglenni cwricwlaidd.

Meysydd sydd angen ystyriaeth bellach

- Defnyddio'r ffurflenni arfarnu yn y pecyn Tyfu i Fyny i gael barn y disgyblion am y gwersi
- Adolygu'r polisi (am fod 3 blynedd ers iddo gael ei adolygu). Ni fydd eisiau llawer o newidiadau ond mae'n arfer da i'w adolygu pob 2-3 blynedd.

Adborth i ddisgyblion

Annwyl ddisgyblion Ysgol Carreg Emlyn,

Diolch yn fawr iawn am wneud ein hymweliad yn un mor bleserus.

Roedd yn grêt i gael siawns i siarad gyda chymaint ohonoch ac roedd pawb yn garedig a chwrtais.

Rhaid rhoi diolch arbennig i'r Criw Clên ac i'r disgyblion a'n harweiniodd ni ar ein taith o amgylch yr ysgol ar y ddau safle ac a gyflwynodd cymaint o wybodaeth tra ar y teithiau. Roedd eich cyflwyniadau yn arbennig gyda CA2 yn dangos eu sgiliau TG Ch yn ystod eu cyflwyniad nhw a disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn dangos eu sgiliau cyflwyno. Cawsom wybodaeth arbennig gennych yn y ddau gyflwyniad. Mae eich gwaith yn arbennig o dda ac roedd yn amlwg trwy'r ymweliad eich bod yn mwynhau eich amser yn yr ysgol yn fawr iawn ac yn frwdfrydig am, ac yn deall yn hynod o dda, gwaith yr ysgol iach. Roedd hyn i gyd yn gymorth i ni wrth asesu eich ysgol ar gyfer y Wobr Ansawdd.

Mae'n wych i weld y gall pob disgybl gael llais ac mae gwaith y cyngor ysgol, y cyngor eco, y llysgenhadon chwaraeon, y llysgenhadon gwych, swyddogion diogelwch ar y ffordd, yr E -Dim, swyddogion y siarter iaith y Criw Clên a'r Ffrindiau Bach a Mawr yn arbennig o dda. Roedd yn amlwg trwy eich gwaith caled a cydwybodol eich bod yn gwneud eich ysgol yn le gwych, diogel a hapus.

Un o'r pethau a sylwais fwyaf yn eich ysgol oedd bod pawb yn ymddangos mor hapus a cymaint o barch a gofal a ddangosir tuag at eich gilydd a tuag at yr amgylchedd. Roedd pawb yn ymddwyn yn dda a pharchus, yn hynod o gwrtais ac yn garedig i'w gilydd.

Cawsom y cyfle i rannu cinio gyda chi ac roedd pawb yn ymddwyn yn dda, roeddech unwaith eto yn hynod o gwrtais ac roedd y cinio a'r sgwrs yn hyfryd. Da oedd eich gweld yn sicrhau bod y byrddau yn lân cyn cinio a bod pawb mor dda am ymolchi eu dwylo. Mae'n wych i weld y gall pob disgybl gael llais ac eich bod wedi medru gwneud penderfyniadau am agweddau sy'n bwysig i chi. Cofiwch, rydych chi yn helpu i wneud eich ysgol yn le gwych – rhywle sy'n ddiogel, hapus, prysur a lle gallwch ddysgu sut i fod yn iach wrth dyfu i fyny.

Daliwch ati gyda'r gwaith da a phob lwc i'r dyfodol,

Eurwen Hulmston

Adborth i'r Cyd-gysylltydd lleol